

SDR 202/2014

26 Tachwedd 2014



Lleoliadau a lleoedd gwasanaethau a reoleiddir gan AGGCC, Gorffennaf – Medi 2014

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth am nifer y lleoliadau gwasanaeth a lleoedd a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), yn cynnwys Gwasanaethau Gofal Oedolion, Gwasanaethau Plant a Gofal Dydd Plant. Mae'r datganiad yn cyflwyno canlyniadau allweddol ar gyfer Cymru ar 30 Medi 2014 (Chwarter 2, 2013-14) ac yn eu cymharu gyda chwarteri blaenorol.

I grynhoi, mae'r datganiad hwn yn dangos bod nifer y lleoliadau cofrestredig ar unrhyw adeg yn aros yn gyson, er bod cofrestru, dadgofrestru a newidiadau mewn cofrestriadau yn digwydd trwy gydol y flwyddyn.

Canlyniadau allweddol

- Roedd 6,311 lleoliad gyda 105,664 o leoedd wedi'u cofrestru gydag AGGCC ar 30 Medi 2014, cynnydd o 194 lleoliad a 1,033 o leoedd ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol (Tabl 1).
- Roedd 1,607 lleoliad gyda 26,287 o leoedd gwasanaethau oedolion wedi'u cofrestru gydag AGGCC ar 30 Medi 2014, cynnydd o 10 lleoliad ond gostyngiad o 48 o leoedd ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol (Tabl 2).
- Roedd 229 lleoliad a 2,199 o leoedd gwasanaethau plant wedi'u cofrestru gydag AGGCC ar 30 Medi 2014, cynnydd o 9 lleoliad a 39 o leoedd ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol (Tabl 3).
- Roedd 4,475 lleoliad a 77,178 o leoedd gofal dydd plant wedi'u cofrestru gydag AGGCC ar 30 Medi 2014, cynnydd o 175 lleoliad a 1,042 o leoedd ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol (Tabl 4).



Dadansoddwr: Rebecca Hignell

Ffôn: 0300 062 8813

E-bost: CSSIW_information@wales.gsi.gov.uk

Diweddariad Nesaf: Chwefror 2015 (dros dro)



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Tabl 1: Nifer y lleoliadau a'r lleoedd yn y gwasanaethau a reoleiddir gan AGGCC

	Sept 2011	Sept 2012	Sept 2013	Sept 2014
Adults' Services				
Settings	1,632	1,615	1,597	1,607
Places	26,736	26,507	26,335	26,287
Children's Services				
Settings	191	196	220	229
Places	2,165	2,170	2,160	2,199
Children's Day Care				
Settings	4,472	4,373	4,300	4,475
Places	76,769	76,553	76,136	77,178
Total				
Settings	6,295	6,184	6,117	6,311
Places	105,670	105,230	104,631	105,664

Source: CSSIW business support system


- Bu cynnydd bychan yn y nifer o leoliadau (3.2%) a lleoedd (1.0%) ers yr un chwarter y llynedd (Medi 2013). Ar y cyfan, mae nifer y lleoliadau a'r lleoedd a reoleiddir gan AGGCC wedi aros yn gyson dros y tair blynedd flaenorol.

Mae'r tablau canlynol isod yn rhoi dadansoddiad cymharol o bob gwasanaeth a amlinellir yn nhabl 1 uchod.

Cyhoeddir gwybodaeth bellach yn dangos data ar gyfer awdurdodau lleol a'r mathau o leoliad ar wefan offeryn lledaenu ystadegau Llywodraeth Cymru StatsWales:
<http://statswales.wales.gov.uk/index.htm>

Ceir esboniad pellach ar y termau a ddefnyddir yn y datganiad hwn yn yr [eirfa](#).

Gwasanaethau Oedolion



Tabl 2: Nifer lleoliadau a lleoedd gwasanaethau oedolion a reoleiddir gan AGGCC


	Sept 2011	Sept 2012	Sept 2013	Sept 2014
Adult Placements				
Settings	13	12	11	11
Places ^(a)
Adult Residential				
Care Homes (Older Adults)				
Settings	702	686	677	675
Places	23,318	23,098	22,934	22,791
Care Homes (Younger Adults)				
Settings	474	469	458	452
Places	3,418	3,409	3,401	3,496
Domiciliary Care				
Settings	408	412	415	431
Places ^(a)
Nurses' Agencies				
Settings	35	36	36	38
Places ^(a)
Total				
Settings	1,632	1,615	1,597	1,607
Places	26,736	26,507	26,335	26,287

Source: CSSIW business support system

(a) Places are not registered in domiciliary care, nurses' agencies, adult placement schemes and those settings and services that CSSIW do not register.

- Mae nifer lleoliadau a lleoedd Gwasanaethau Oedolion wedi aros yn gyson dros y tair blynedd flaenorol, gyda gostyngiad bach (4%) y gellir ei briodoli i gartrefi gofal Oedolion.

Gwasanaethau plant a reoleiddir gan AGGCC (dan 8 oed)




Tabl 3a: Nifer lleoliadau a lleoedd gwasanaethau plant a reoleiddir gan AGGCC

	Sept 2011	Sept 2012	Sept 2013	Sept 2014
Children's Residential				
Settings	119	121	125	133
Places	587	587	577	618
Residential Special Schools				
Settings	12	11	11	11
Places	247	238	238	238
Total				
Settings	131	132	136	144
Places	834	825	815	856

Source: CSSIW business support system

- Ar y cyfan, bu cynnydd o 13 lleoliad a 22 o leoedd dros y tair blynedd ddiwethaf, y gellir eu priodoli i'r sector preswyl Plant.

Gwasanaethau plant a arolygir gan AGGCC^(b)



Tabl 3b: Nifer lleoliadau gwasanaethau plant heb eu cofrestru ond a arolygir gan AGGCC

(b)


	Sept 2011	Sept 2012	Sept 2013	Sept 2014
Fostering Services				
Settings	47	50	47	50
Places
Adoption services				
Settings	23	23
Places
Boarding Schools				
Settings	10	11	11	10
Places	1,161	1,175	1,175	1,341
Further Education Colleges				
Settings	3	3	3	2
Places	170	170	170	2
Total				
Settings	60	64	84	85
Places	1,331	1,345	1,345	1,343

Source: CSSIW business support system

(b) Mae'r rhain yn lleoliadau a lleoedd a reoleiddir gan yr Awdurdod Lleol ond a gaiff eu harolygu gan AGGCC

- Mae'r gostyngiad yn nifer y lleoedd Colegau Addysg Bellach yn adlewyrchu ail-gofrestrriad fel Ysgol Breswyl. Roedd y lleoliad hwn yn cyfrif am 168 o'r 170 o leoliadau Coleg Addysg Bellach

• **Gofal dydd plant^(c)**



Tabl 4: Nifer lleoliadau a lleoedd gofal dydd plant a reoleiddir gan AGGCC^(c)

	Sept 2011	Sept 2012	Sept 2013	Sept 2014
Childminders				
Settings	2,405	2,341	2,310	2,473
Places	12,292	12,088	12,017	12,910
Full Day Care				
Settings	588	621	641	653
Places	24,572	26,111	26,894	27,178
Sessional Day Care				
Settings	812	791	767	783
Places	17,795	17,632	17,180	17,571
Out of School Care				
Settings	526	490	481	473
Places	17,733	16,823	16,892	16,620
Creches				
Settings	47	44	42	33
Places	846	763	775	648
Open Access Play Provision				
Settings	94	86	59	60
Places	3,531	3,136	2,378	2,251
Total				
Settings	4,472	4,373	4,300	4,475
Places	76,769	76,553	76,136	77,178

Source: CSSIW business support system

(c) Mae'r rhain yn wasanaethau ar gyfer plant dan 8 oed

- Ar y cyfan, mae nifer lleoliadau gofal dydd Plant bron yn ddigyfnewid o gymharu â'r un chwarter dair blynedd yn ôl.
- Er mis Medi 2013, bu cynnydd o 7% mewn lleoliadau a lleoedd gwarchodwyr plant ac er mis Medi 2011, bu cynnydd arwyddocaol o 11% mewn lleoliadau a lleoedd gofal dydd

Llawn. Fodd bynnag, er mis Medi 2011, bu gostyngiad cyfatebol mewn darpariaeth chwarae mynediad agored, gofal y tu allan i'r ysgol a meithrinfeydd.

Gwybodaeth Ansawdd Allweddol

1. Ffynhonnell yr ystadegau

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn hybu'r gwaith o wella gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol drwy wneud y canlynol:

- rheoleiddio
- arolygu ac adolygu
- rhoi cyngor proffesiynol i Weinidogion a llunwyr polisi.

Mae'r wybodaeth yn y briff hwn yn deillio o'r system weinyddol y mae AGGCC yn ei defnyddio i gofrestru ac i reoleiddio lleoliadau gofal. Dim ond i leoliadau sy'n cael eu rheoleiddio y mae'r wybodaeth yn berthnasol. Mae AGGCC wrthi'n adolygu'r broses a'r systemau rheoleiddio.

2. Amseriad

Mae system weinyddol AGGCC yn cael ei diweddarau'n barhaus fel rhan o waith rheoleiddio'r arolygiaeth o ddydd i ddydd. Mae a wnelo'r cyhoeddiad â chipluniau o'r system a gymerir yn chwarterol drwy gydol y flwyddyn ariannol. Felly mae gwybodaeth a gyhoeddir ar gael ar gyfer diwedd

- Chwarter 1 (Ebrill i Fehefin) sef 30 Mehefin
- Chwarter 2 (Gorffennaf i Fedi) sef 30 Medi
- Chwarter 3 (Hydref i Ragfyr) sef 31 Rhagfyr
- Chwarter 4 (Ionawr i Fawrth) sef 31 Mawrth

3. Ansawdd data

Mae cofrestru a dadgofrestru a newidiadau mewn cofrestriadau'n digwydd drwy gydol y flwyddyn, er bod nifer y lleoliadau sydd wedi'u cofrestru ar unrhyw un adeg yn weddol gyson ar y cyfan.

Efallai bod peth o'r data yn yr adroddiad hwn wedi cael ei ddiwygio ers iddo gael ei gyhoeddi ddiwethaf yn adroddiad blynyddol 2012-13 y Prif Arolygydd.

4. Symbolau

Defnyddir y symbolau canlynol yn y tablau hyn:

- . = nid yw'r data'n berthnasol
- .. = nid yw'r data ar gael
- = nid yw'r data yn union sero, ond caiff ei amcangyfrif fel sero neu lai na hanner y digid terfynol a ddangosir
- * = nid yw'r data'n cael ei ddatgelu neu nid yw'n ddigon pendant i gael ei gyhoeddi

5. Datgelu a thalgrynnu

Nid yw'r manylion yn y tablau hyn nac yn y tablau ategol yn StatsWales wedi'u talgrynnu. Y rheswm am hyn yw bod yr wybodaeth hon i'w chael hefyd yng Nghyfeiriadur Gwasanaethau Rheoledig AGGCC (gweler eitem 9).

6. Polisi diwygiadau

Gan fod y data'n deillio o system weinyddol ac yn rhoi darlun o weithgarwch a gofnodwyd ar ddyddiad penodol, ni fydd data'n cael ei ddiwygio bob chwarter. Efallai nad yw'r darlun hwn yn gwbl gywir gan nad yw'r wybodaeth o bosib wedi cael ei rhoi ar y system tan yn ddiweddarach (h.y. y chwarter nesaf) ac fe allai'r chwarter nesaf gynnwys rhywfaint o ddata o'r chwarter blaenorol a oedd yn 'hwyr' yn cael ei gofnodi. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd nifer yr achosion dan sylw yn isel.

7. Defnyddio ystadegau

Rydym yn credu mai'r canlynol yw'r prif rai sy'n defnyddio gwybodaeth am leoliadau sy'n cael eu rheoleiddio yng Nghymru (ac eithrio defnydd craidd AGGCC):

- Gweinidogion Llywodraeth Cymru
- Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Aelodau'r Cynulliad a Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Awdurdodau unedol llywodraeth leol (swyddogion ac aelodau etholedig)
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion
- Rhannau eraill o Lywodraeth Cymru
- Adrannau eraill o'r llywodraeth
- Dinasyddion unigol a chwmnïau preifat

Ar wahân i'r defnydd craidd y mae AGGCC yn ei wneud o'r wybodaeth, bydd yr ystadegau hyn yn cael eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau:

- Cynghori Gweinidogion
- Gwaith meincnodi a chymharu awdurdodau unedol
- Bod yn sail i drafodaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol a thu hwnt
- Darparu gwybodaeth i'r rheini sy'n comisiynu gwasanaethau gofal

8. Adborth Defnyddwyr

Rydym yn awyddus i ymgysylltu â defnyddwyr ein hystadegau ac rydym yn eich gwahodd i anfon eich sylwadau ar y cyhoeddiad at cssiw_information@wales.gsi.gov.uk.

9. Cyhoeddiadau cysylltiedig

- Cyhoeddir gwybodaeth fanylach bob chwarter i gyd-fynd â'r datganiad hwn ar offeryn lledaenu ystadegau Llywodraeth Cymru, StatsWales. Yma ceir dadansoddiad pellach yn ôl y math o leoliad a fesul awdurdod lleol: www.statswales.wales.gov.uk/index.htm
- Bob blwyddyn, bydd AGGCC yn cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol am weithgareddau mewn lleoliadau a reoleiddir yn Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd. Gellir dod o hyd i'r Adroddiad Blynyddol drwy'r ddolen ganlynol: <http://cssiw.org.uk/our-reports/annual-reports/?lang=cy>
- Mae rhestrau o leoliadau a reoleiddir a'u hadroddiadau arolygu diweddaraf ar gael yng Nghyfeiriadur y Gwasanaethau Rheoledig: <http://cssiw.org.uk/our-reports/regulated-reports/?lang=cy>

10. Gwybodaeth bellach

Ceir gwybodaeth bellach ar wefan AGGCC:

www.cssiw.org.uk

Geirfa

- Lleoedd** Bydd rhai lleoliadau a gwasanaethau'n cael eu cofrestru i ddarparu gofal i uchafswm o bobl – nifer y lleoedd cofrestredig. Nid yw lleoedd yn cael eu cofrestru mewn gofal cartref, asiantaethau nyrsys, cynlluniau lleoli oedolion nac yn y lleoliadau a'r gwasanaethau hynny nad yw AGGCC yn eu cofrestru (gweler "Cofrestru").
- Darparwr** Corff neu unigolyn sy'n darparu gwasanaeth gofal cymdeithasol neu wasanaeth blynyddoedd cynnar a reoleiddir.
- Cofrestru** Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o wasanaethau sy'n darparu gofal i bobl gofrestru gydag AGGCC cyn y caiff ddechrau gweithredu. Rhaid i'r sawl sy'n dymuno rhedeg gwasanaethau wneud cais i AGGCC i gofrestru, sy'n cynnwys cyfweiliadau ac archwiliadau ymweliad safle. Dim ond gwasanaethau sy'n dangos eu bod yn addas i'w rhedeg sy'n cael eu cofrestru. Mae gwasanaethau gofal sydd angen eu cofrestru yn cynnwys: Cartrefi gofal i oedolion hŷn ac iau, asiantaethau gofal cartref, cartrefi plant, asiantaethau maethu yn y sector cyhoeddus a'r sector annibynnol, asiantaethau mabwysiadau yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, gwarchodwyr plant a meithrinfeydd. Dylid nodi nad yw asiantaethau maethu awdurdodau lleol, asiantaethau mabwysiadu awdurdodau lleol, ysgolion preswyl, ysgolion arbennig preswyl na cholegau addysg bellach yn cael eu cofrestru gydag AGGCC ond eu bod yn cael eu rheoleiddio gan AGGCC (gweler 'Rheoleiddio').
- Rheoleiddio** Mae rheoleiddio gwasanaethau gofal yn cynnwys amrediad eang o weithgareddau gan AGGCC i sicrhau bod gwasanaethau gofal yn ddiogel ac i annog gwella. Mae rheoleiddio'n cynnwys: Cofrestru – penderfynu pwy a gaiff ddarparu gwasanaethau; Arolygu – arolygu gwasanaethau a chyhoeddi adroddiadau, a Gorfodi – cymryd camau gorfodi, gan gynnwys hysbysiadau diffyg cydymffurfio, canslo cofrestriad gwasanaeth ac ymgymryd ag erlyniadau troseddol. Nid yw AGGCC yn ymchwilio i gwynion ond mae yn ymateb i bryderon, fel rheol trwy ymgymryd ag arolygiad o'r gwasanaeth.

Rheoliadau Mae rheoliadau yn ofynion cyfreithiol ar gyfer rhedeg gwasanaethau a bennir gan [Gynulliad Cenedlaethol Cymru](#), a gaiff eu gorfodi gan AGGCC ar ran Gweinidogion Cymru.

Lleoliadau gwasanaethau Dyma'r enw a ddefnyddir i ddisgrifio unrhyw gyrff neu unigolion sy'n cael eu rheoleiddio gan AGGCC.

Gofal dydd i blant Yn cynnwys y gwasanaethau canlynol ar gyfer plant dan 8 oed:
Gofal Dydd Llawn
Gwarchodwyr Plant
Gofal y Tu Allan i'r Ysgol
Gofal Dydd Sesiynol
Meithrinfeydd
Darpariaeth Mynediad Agored

Gwasanaethau i blant Yn cynnwys y gwasanaethau canlynol:
Cartrefi Plant
Canolfannau Preswyl i Deuluoedd
Asiantaethau maethu yn y sector cyhoeddus ac yn y sector annibynnol
Asiantaethau mabwysiadu yn y sector cyhoeddus ac yn y sector gwirfoddol
Ysgolion preswyl gyda myfyrwyr dan 18 oed
Ysgolion arbennig preswyl gyda myfyrwyr dan 18 oed
Colegau addysg bellach gyda myfyrwyr dan 18 oed
Unedau diogelwch (wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer cartrefi plant oherwydd y niferoedd isel)

Gwasanaethau i oedolion Yn cynnwys y gwasanaethau canlynol:
Cartrefi Gofal i Oedolion Hŷn (65 oed a throsodd)
Cartrefi Gofal i Oedolion Iau (dan 65 oed)
Cynlluniau Lleoli Oedolion
Asiantaethau Gofal Cartref
Asiantaethau Nyrsys

Gwybodaeth ar gyfer cysylltu

Os oes gennych unrhyw sylwadau am y Datganiad Ystadegol hwn, cysylltwch â:
Claire Bushell
AGGCC
Parc Busnes Rhydycar,
Merthyr Tudful,

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8911

E-bost: cssiw_information@Wales.gsi.gov.uk